

PENNAETH HEDDLU YN DEWIS EI YMGEISYDD AR GYFER SWYDD PRIF GWNSTABL



Mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Arfon Jones, wedi cyhoeddi enw ei ymgeisydd o ddewis ar gyfer swydd Prif Gwnstabl newydd y rhanbarth.

Mae penodiad y cyn-filwr o Ryfel y Gwlff, Carl Foulkes, yn amodol ar dderbyn cadarnhad gan gyfarfod o Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, sydd i'w gynnal ar 10 Medi.

Mae Mr Jones wedi hysbysu'r Panel Heddlu a Throsedd o'i ddewis yn dilyn proses gyfweld drwyadl dros ddau ddiwrnod.

Ar hyn o bryd mae Mr Foulkes, 47 oed, sy'n hanu'n wreiddiol o Gaergwrle, ger Wrecsam, yn Ddirprwy Brif Gwnstabl Heddlu Glannau Merswy.

Dechreuodd ei yrfa plismona gyda Heddlu Trafnidiaeth Prydain yn 1993, ar ôl treulio cyfnod yn y Llynges Frenhinol a gwasanaethu yn y Rhyfel Gwlff cyntaf.

Ar ôl gweithio i Heddlu Trafnidiaeth Prydain yn Llundain am 10 mlynedd, gan gyflawni amryw o swyddi plismona a chefnogi lleol, fe'i dyrchafwyd i fod yn Brif Arolygydd dros dro.

Yn 2003, ymunodd â Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr fel Ditectif Brif Arolygydd yn Walsall. Symudodd i'r Adran Ymchwilio Troseddol cyn dod yn Uwch Arolygydd Gweithrediadau yn Birmingham.

Yn 2008, fe'i dyrchafwyd i swydd Comander yn Solihull, a dwy flynedd yn ddiweddarach daeth yn arweinydd Cudd-wybodaeth Heddlu'r rhanbarth, cyn symud ymlaen i fod yn bennaeth CID, sef yr adran fwyaf yn yr Heddlu. Fel pennaeth CID, roedd yn gyfrifol am reoli ymateb yr heddlu i droseddau trefnedig difrifol, llofruddiaethau a throseddau caffael.

Mae ganddo gyfrifoldeb portffolio cenedlaethol dros Cynorthwyo Dadfrifio Troseddwyr o dan SOCPA, Ymchwiliadau Ffynhonnell Agored a Gwasanaeth Personau Gwarchoddedig y DU (UKPPS).

Mae Mr Foulkes yn briod gyda mab yn ei ardegau ac mae'n mwynhau gweithgareddau awyr agored, gan gynnwys rhedeg, cerdded a beicio.

Yn 2012, bu'n cynrychioli Prydain ym Mhencampwriaethau Duathlon y Byd yn Ffrainc, ac mae'n aml yn rhedeg a beicio i gefnogi elusen Breakthrough Breast Cancer.

Dyweddodd Mr Foulkes: "Mae'n achos cryn falchder ac yn fraint fawr i mi gael fy newis fel yr ymgeisydd o ddewis i wasanaethu pobl gogledd Cymru.

Rwy'n edrych ymlaen at gyfarfod â'r Panel Heddlu a Throsedd yn fy ngwrandawriad cadarnhau ac yn amodol ar eu cymeradwyaeth i'm penodiad, rwy'n edrych ymlaen yn fawr at arwain gwasanaeth heddlu mor ymroddedig a gweithgar."

Dyweddodd y Comisiynydd: "Rwy'n hynod falch o enwi Carl Foulkes fel fy ymgeisydd o ddewis i fod yn Brif Gwnstabl newydd Gogledd Cymru.

Roedd ei brofiad, ei frwdfrydedd a'i ymrwymiad yn glir o'r broses gyfweld ac rwy'n falch o allu cyflwyno ei enw gerbron y Panel Heddlu a Throsedd.

Ni fyddaf yn gwneud unrhyw sylw pellach hyd nes i'r Panel gael y cyfle i adolygu'r penodiad mewn gwrandawriad cadarnhau."

Hysbysebwyd y swydd ar ôl i Mark Polin ddatgelu ei fod yn ymddeol ar ôl naw mlynedd fel prif gwnstabl.

Hyd nes y bydd Prif Gwnstabl newydd yn dechrau yn ei swydd, bydd y Dirprwy Brif Gwnstabl presennol, Gareth Pritchard, yn gweithredu fel Prif Gwnstabl Dros Dro gyda Richard Debicki yn Ddirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro, tra bydd Neill Anderson yn camu ymlaen i fod yn Brif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro.

Wedi ei bostio ar Ddydd Gwener 3ydd Awst 2018